

Adroddiad Arolygu Anabledd Dysgu (Dirybudd) (03275)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 22 a 23 Mawrth 2023

Dyddiad cyhoeddi: 23 Mehefin 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	17
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	27
4.	Y camau nesaf	31
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	32
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	34
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	35

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad anabledd dysgu dirybudd mewn ward ysbyty ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 22 a 23 Mawrth 2023. Roedd y ward yn darparu gofal i bum claf gydag anabledd dysgu yn ystod ein harolygiad.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC a dau adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nododd pob un o'r cleifion ac aelodau o'r teulu a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan yr ysbyty naill ai'n dda neu'n dda iawn. Roedd y staff yn teimlo'n angerddol am eu rolau ac yn frwdfrydig am y ffordd roeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt. Cafodd Therapydd Galwedigaethol ei recriwtio i'r Tîm Amlddisgyblaethol yn ddiweddar a darparwyd amrywiaeth eang o weithgareddau therapiwtig yn yr ysbyty i gleifion. Gwelsom dystiolaeth o gynlluniau gofal cyfathrebu â chleifion unigol da ond lleisiodd llawer o aelodau o staff bryderon na fu gan y ward Therapydd Lleferydd ac iaith dynodedig am dair blynedd. Gwelsom fod systemau ar waith i ddiogelu hawliau cleifion ond roedd angen rhai gwelliannau mewn perthynas â'r ffurflen Aseiad Deddf Galluedd Meddyliol a Lles Pennaf i'w cwblhau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid penodi Therapydd Lleferydd ac iaith sydd â chyfrifoldeb clinigol am y ward
- Dylai'r bwrdd iechyd adolygu dogfennaeth Aseiad Deddf Galluedd Meddyliol a Lles Pennaf i sicrhau ei fod yn darparu'r manylder a ddisgwylir gan y Ddeddf Galluedd Meddyliol a chyfraith achosion. Dylid ystyried dogfennaeth atodol neu amgen lle mae dogfennaeth y bwrdd iechyd yn cyfyngu ar allu'r staff i fodloni gofynion statudol a chyfraith achosion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion mewn modd priodol, ac yn eu trin ag urddas a pharch
- Dangosodd y staff eu bod yn bod yn diwallu anghenion cyfathrebu iaith y cleifion fesul unigolyn.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, gwelsom fod systemau a threfniadau llywodraethu da ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion. Roedd prosesau amrywiol ar waith i reoli ac adolygu risgiau er mwyn helpu i gynnal iechyd a diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr yn yr ysbyty. Fodd bynnag, nid oedd system larwm ar waith er mwyn i'r staff, y cleifion a'r ymwelwyr ofyn am

gymorth os byddai argyfwng. Gwnaethom nodi bod angen gwneud rhai addasiadau i bolisiau presennol er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion ac i atal derbyniadau cleifion amhriodol. Gwelsom fod gan yr ysbyty system ffeilio papur wedi'i hen sefydlu a diogel ac roedd cofnodion y cleifion wedi'u trefnu'n dda ac yn hawdd eu llywio. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd ystyried rhoi system cofnodion iechyd electronig ar waith a fydd yn gwella arferion gweithio ar gyfer staff. Roedd angen rhai gwelliannau mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, rheoli meddyginiaethau ac archwilio cyfarpar yr ysbyty yn rheolaidd, er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r bwrdd iechyd ddarparu system larwm effeithiol a phriodol ar y ward sy'n sicrhau bod modd i staff, cleifion ac ymwelwyr seinio'r larymau pan fo angen.
- Rhaid i uwch-reolwyr y bwrdd iechyd ystyried cyfyngiadau'r amgylchedd a barn glinigol y tîm amlddisgyblaethol wrth wneud penderfyniadau ar dderbyn cleifion.
- Rhaid cofnodi cyfarwyddiadau arbennig mewn perthynas â meddyginiaeth cleifion yng nghofnodion y cleifion er mwyn i'r staff fod yn ymwybodol ohonynt.
- Dylid rhoi mesurau cadarn ar waith i sicrhau y caiff cyfarpar dadebru eu gwasanaethu o fewn yr amserlenni a nodwyd er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion.
- Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei brosesau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth â chleifion sy'n mynd i'r ysbyty, i sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei chadw ar y ward, er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol ac adolygiad effeithiol o'r tîm amlddisgyblaethol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dangosodd y staff falchder ac ymroddiad wrth dynnu sylw at gyflawniadau niferus y ward a gwnaethant gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r nod o wella ansawdd gofal y claf yn barhaus.
- Roedd gan y cleifion gynlluniau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol o ansawdd uchel a roddodd fanylion am fesurau ataliol a chynlluniau gofal penodol ar gyfer ymyriad corfforol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod strwythur llywodraethu effeithiol ar waith o ran gweithgareddau a chyfarfodydd i drafod digwyddiadau, canfyddiadau a materion ynglŷn â gofal cleifion a oedd yn cefnogi gwelliannau a dysgu ar y cyd yn sgil digwyddiadau a digwyddiadau negyddol difrifol. Siaradodd y staff yn gadarnhaol am y cymorth a ddarperir gan gydweithwyr a goruchwylwyr a gwelsom waith tîm cryf drwy gydol

ein harolygiad. Fodd bynnag, dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym nad oedd yr uwch-reolwyr yn ddigon amlwg ac nad oeddent yn eu cynnwys mewn penderfyniadau pwysig. Roedd yn ddymunol canfod bod y lefelau staffio yn ddigonol, yn briodol ac yn cefnogi diogelwch y cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhwystrau o ran gofal a thriniaeth i gleifion ar y ward oherwydd prinder staff cyflenwi ar gyfer aelodau absennol o'r Tîm Amlddisgyblaethol, sy'n cynnwys staff therapi lleferydd ac iaith a'r fferyllfa. Roedd angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â chydymffurfio â hyfforddiant gorfodol i staff.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r bwrdd iechyd gynnal ymgynghoriadau pellach â'r staff er mwyn trafod ffyrdd o gynnwys staff y ward mewn penderfyniadau pwysig.
- Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad o ofynion y tîm amlddisgyblaethol er mwyn sicrhau bod digon o staff cyflenwi yn bresennol ar gyfer aelodau absennol o'r Tîm Amlddisgyblaethol er mwyn darparu gofal priodol ac ymatebol i gleifion.
- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod aelodau o'r staff yn cael eu cefnogi i fynychu hyfforddiant gorfodol er mwyn gwneud yn siŵr bod gan y staff sgiliau a gwybodaeth briodol i gyflawni eu rolau
- Dylid adolygu'r system matrices hyfforddiant er mwyn sicrhau bod modd cael hyd i ffigurau cyfredol a chywir ynglŷn â chydymffurfiaeth â hyfforddiant er mwyn i lefelau hyfforddiant staff gael eu rheoli'n effeithiol ac er diogelwch y cleifion a'r staff
- Dylid adolygu'r system matrices hyfforddiant gyda'r nod o gofnodi cydymffurfiaeth pob aelod o'r staff â hyfforddiant ar un system er mwyn gallu llywodraethu a monitro'r sefyllfa yn hwylus.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dangosodd y tîm o staff ymrwymiad i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion.
- Aeth yr ysbyty ati'n weithgar i recriwtio, cadw a datblygu aelodau o staff presennol y ward.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Rhoesom holiaduron AGIC i'r cleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn ystod yr arolygiad er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty. Derbyniwyd cyfanswm o ddau holiadur cleifion a dau holiadur teulu a gofalwyr wedi'u cwblhau. Roedd yr holl ymatebion yn gadarnhaol gyda'r holl ymatebwyr yn cytuno bod safon y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan yr ysbyty yn dda neu'n dda iawn.

Cadw'n Iach

Diogelu a Gwella Iechyd

Roedd meddyg teulu, gwasanaethau deintyddol a gweithwyr iechyd corfforol proffesiynol eraill ar gael i'r cleifion, fel y bo angen. Roedd cofnodion y cleifion yn dangos tystiolaeth o asesiadau corfforol a gwaith monitro manwl a phriodol. Gwelsom dystiolaeth i gefnogi a gwella iechyd y cleifion ac roedd nodau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a chynnydd y cleifion yn cael ei ystyried mewn cyfarfodydd tîm aml-ddisgyblaethol. Roedd y cleifion yn cael archwiliadau iechyd blynyddol ac roedd ganddynt basbortau iechyd cyfredol ar waith pe byddai angen eu derbyn i ysbyty cyffredinol.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod yr amgylchedd gofal yn lân ac yn daclus ac roedd awyrgylch hamddenol ar y ward. Roedd y cleifion yn cael mynediad i'w hystafelloedd gwely, lolfa gymunedol a gardd ddymunol. Gwnaethom arsylwi bod sied yn ardal yr ardd a oedd yn cynnwys nifer o eitemau i'w gwaredu ond dywedodd staff y ward wrthym na allent gael gwared arnynt gan eu bod wedi bod yn aros i sgip llawn gael ei gasglu ers rhyw ddeufis.

Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd wneud ymdrechion ychwanegol i drefnu cael gwared ar y sgip er mwyn gallu cael gwared ar eitemau'r ardd.

Yn ystod ein taith o gwmpas y ward, cawsom wybod bod mesurau addurno wedi bod yn mynd rhagddynt a arweiniodd at dynnu manylion personol cleifion oddi ar ddrysau eu hystafelloedd gwely. Nodwyd gennym fod cynllun cod lliw drysau ar waith ar y ward er mwyn helpu i ddynodi math o ystafell. Fodd bynnag, nid oedd arwyddion ychwanegol ar y drysau mewnol i helpu cleifion, staff ac ymwelwyr i ymgyswddo â'r ward.

Rydym yn argymhell y dylid codi arwyddion clir a hygyrch ar ddrysau mewnol y ward sy'n nodi pob ystafell er gwybodaeth i staff, cleifion ac ymwelwyr.

Roedd yn ddymunol nodi bod canolfan Gwasanaethau Cymorth Therapiwtig yr ysbyty yn darparu ystod eang o weithgareddau ar y safle ac oddi ar y safle i gleifion a oedd yn cefnogi llesiant cleifion ac yn datblygu eu sgiliau a'u galluoedd. Gwelsom dystiolaeth o raglenni gweithgareddau cleifion unigol a oedd yn cael eu harddangos ar y ward a chawsom wybod bod y Gwasanaethau Cymorth Therapiwtig wedi cysylltu â darparwyr gwasanaeth ychwanegol i gynnig profiadau wedi'u teilwra i gleifion gan gynnwys gweithgareddau corfforol a theithiau dydd. Yn ogystal, darparodd y Gwasanaethau Cymorth Therapiwtig grŵp bwyta'n iach a oedd yn cefnogi cleifion i wneud dewisiadau ffordd o fyw iach. Rhoddodd staff y ward wybod i ni fod gweithgareddau corfforol yn cael eu hannog ac yn cael eu trefnu yn unol â gallu corfforol y cleifion.

Roedd hi'n ddymunol gweld staff y ward yn ymgysylltu mewn modd cadarnhaol â'r cleifion yn ystod ein harolygiad, ond gwnaethom nodi mai gweithgareddau hunangyfeiriedig oedd y gweithgareddau therapiwtig ar y ward i bob golwg, fel posau a gwyllo'r teledu. Cawsom wybod bod Therapydd Galwedigaethol wedi cael ei recriwtio i'r Tîm Amlddisgyblaethol yn ddiweddar, a hynny yn dilyn cyfnod lle na fu Therapydd Galwedigaethol ar y ward ers nifer o flynyddoedd. Roedd y Therapydd Galwedigaethol yn absennol adeg ein harolygiad ac nid oedd therapydd arall i gyflenwi er mwyn sicrhau dilyniant y gweithgareddau therapiwtig ar y ward. Gwnaethom drafod y mater hwn gyda'r staff yn ystod yr arolygiad ac yn dilyn yr arolygiad a chawsom sicrwydd er na chafwyd staff i gyflenwi yn ystod y cyfnod absenoldeb byr hwn, roedd mesurau priodol ar waith i gyflenwi dros gyfnod absenoldeb estynedig os byddai angen.

Yn ystod ein taith o'r ward, roedd hi'n ddymunol nodi bod y ward yn darparu ystafell synhwyrdd at ddefnydd y cleifion. Fodd bynnag, roedd yn anniben ac yn cael ei defnyddio fel storfa ar gyfer eitemau cyffredinol ac annibendod a oedd yn atal cleifion rhag defnyddio'r ystafell yn unol â'r bwriad.
Dylid tacluso a chynnal a chadw'r ystafell synhwyrdd at ddefnydd y cleifion.

Gofal ag urddas

Gofal ag urddas

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom ryngweithio llawn ymrwymiad a pharch rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y staff yn garedig a llawn gofal tuag at gleifion ac yn cyfleu hynny drwy ddefnyddio iaith briodol ac effeithiol. Cadarnhaodd y cleifion ac aelodau eu teuluoedd y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein harolygiad fod y staff yn ymatebol, yn gefnogol ac yn barod eu cymorth. Roedd y staff nyrsio yn wybodus iawn am y cleifion ac roedd yn glir bod cydberthnasau proffesiynol da wedi cael eu datblygu i gefnogi iechyd a llesiant y cleifion. Ar adeg ein harolygiad, gwnaethom nodi bod y ward yn cyflogi chwe aelod o staff gwrywaidd a 25 aelod o staff benywaidd. Gwnaethom drafod sut roedd y staff yn diwallu anghenion gofal

personol y cleifion a chawsom wybod bod aelodau o staff gwrywaidd ychwanegol yn cael eu darparu gan wardiau eraill yr ysbyty pan fo angen. Gwnaethom sylwi drwy gydol ein harolygiad ar staff yn dogfennu ac yn ymateb i anghenion gofal personol cleifion mewn modd amserol a sensitif.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod mesurau ar waith i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd yn gadarnhaol gweld bod gan bob claf ei ystafell ei hun y gallai ei phersonoli fel yr oedd yn dymuno. Gallai'r cleifion gloi eu hystafelloedd gwely o'r tu mewn a oedd yn diogelu eu preifatrwydd a'u hurddas. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi nad oedd paneli gweld ar ddrysau'r ystafelloedd gwely i alluogi'r staff i arsylwi cleifion heb agor y drysau i leihau ar unrhyw darfu posibl ar gleifion. **Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd ystyried gosod paneli gweld ar ddrysau ystafelloedd gwely'r cleifion er mwyn gallu cynnal arsylwadau cleifion o'r tu allan.**

Yn ystod ein taith o'r ward, gwnaethom nodi bod y ward wedi mynd i'r afael ag anghenion gofal unigol un claf trwy drawsnewid ystafell wely yn lolfa bersonol at ei ddefnydd ef yn unig. Fodd bynnag, roedd y cyfleoedd i'r cleifion eraill gael lle preifat ar wahân i'w hystafelloedd gwely yn gyfyngedig, ac nid oedd ardaloedd ar wahân ar gyfer y rhywiau ar y ward. Roedd cleifion yn cael eu cefnogi i ddefnyddio ystafelloedd ymolchi rhyw cymysg cymunedol ond nid oedd ganddynt gyfleusterau golchi ensuite yn eu hystafelloedd gwely.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan gleifion gwrywaidd a benywaidd doiledau a chyfleusterau golchi ar wahân er mwyn atal torri preifatrwydd ac urddas y cleifion o bosibl. At hynny, rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd ddarparu lleoedd penodol i rywiau ar wahân ar gyfer cleifion y mae modd eu defnyddio fel y bo angen.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom lawer o enghreifftiau o gyfathrebu effeithiol a phersonol rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y staff yn gallu dangos eu bod yn diwallu anghenion cyfathrebu iaith y cleifion yn unigol. Gwelsom enghreifftiau o gynlluniau gofal cyfathrebu â chleifion unigol da a ddatblygwyd ar gyfer cleifion. Roedd dulliau cyfathrebu yn gyson ag anghenion y grŵp cleifion ac roedd yn ddymunol cael gwybod bod y mwyafrif o staff y ward wedi cael hyfforddiant yn rhaglen iaith Makaton.

Fodd bynnag, gwnaethom sylwi bod diffyg cymorth Therapydd Lleferydd ac iaith dynodedig ar y ward ac yn ystod cyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaethol y gwnaethom eu mynychu yn ystod yr arolygiad. Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, gwnaethant fynegi pryder na fu therapydd dynodedig ar y ward ers tair blynedd. Dywedodd y staff wrthym y caiff Therapi Lleferydd ac iaith ei ddarparu o gael atgyfeiriad i'r tîm cymunedol nad yw'n ymateb yn ddigonol i anghenion cleifion. Dywedwyd wrthym fod cleifion y ward ond yn cael un prynhawn yr wythnos o

fynediad dynodedig i Therapydd Lleferydd ac iaith. Mynegodd sawl aelod o staff bryderon mewn perthynas â'r diffyg mewnbyn digonol gan Therapi Lleferydd ac iaith ar y ward a oedd yn effeithio ar gynnydd y therapi a thriniaeth cleifion. Dywedodd y staff a gwblhaodd ein holiadur ar-lein wrthym:

“Mae cyfathrebu yn destun gofid mawr i mi, o ran sut i fynd i'r afael â'r ffordd y mae staff yn cyfathrebu â'i gilydd a'r diffyg cymorth lleferydd ac iaith yn ein gwasanaeth”

Gofynnwyd i'r staff sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth a ddarperir a dywedwyd wrthym:

“Cyflogi uwch-therapydd lleferydd ac iaith llawn amser, yn ogystal â therapydd celf a cherddoriaeth...”

Rydym yn argymhell penodi Therapydd Lleferydd ac iaith sydd â chyfrifoldeb clinigol am y ward.

Roedd cyfarfodydd trosglwyddo dyddiol yn cael eu cynnal i'r staff nyrsio rannu gwybodaeth am gleifion ac unrhyw bryderon, materion neu ddigwyddiadau a oedd wedi codi yn ystod y diwrnod blaenorol. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom fynychu cyfarfodydd gan gynnwys y Sgrym Diogelwch dyddiol, y sgrym Gwasanaethau Arbenigol Rhanbarthol, y cyfarfod Tîm Amlldisgyblaethol wythnosol a'r rownd ward wythnosol. Roedd y staff yn dangos lefel dda o ddealltwriaeth o'r unigolion roeddent yn gofalu amdanynt, ac roedd trafodaethau yn canolbwyntio ar yr hyn a oedd yn orau i'r claf. Roedd y ward yn defnyddio technoleg ddigidol fel adnodd i'w helpu i gyfathrebu'n effeithiol drwy gyfarfodydd Teams ar-lein, trafodaethau dros y ffôn a chyfnewid negeseuon e-bost er mwyn sicrhau gofal amserol i gleifion.

Roedd hi'n gadarnhaol nodi bod gwasanaethau iaith yn cael eu cynnig i siaradwyr Cymraeg sy'n diwallu eu hanghenion fel rhan naturiol o'u gofal. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi bod llawer o aelodau o staff yn siarad Cymraeg a dywedwyd wrthym fod o leiaf un aelod o staff ar bob shift yn gallu sgwrsio yn Gymraeg os oedd angen.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom rai enghreifftiau da o wybodaeth ddefnyddiol i gleifion yn cael ei harddangos mewn fformat hygyrch a dealladwy ar y ward. Gwelsom dystiolaeth o amserlenni gweithgareddau wedi'u personoli i gleifion yn ystafelloedd gwely'r cleifion a oedd yn cael eu harddangos ar ffurf lluniau er mwyn helpu i ddeall. Cafodd gwybodaeth am gefndir a dewisiadau cleifion unigol ei chofnodi'n briodol ac roedd ar gael. Roedd siart drefniadol ddefnyddiol wrth fynedfa'r ward a oedd yn dangos enwau a ffotograffau'r aelodau o staff er gwybodaeth i'r cleifion ac

ymwelwyr. Gwelsom hysbysfyrdau ychwanegol yn ardal y lolfa a oedd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion mewn perthynas ag aelodau o'r staff a oedd ar ddyletswydd a'r gweithgareddau i gleifion a oedd wedi'u trefnu ar gyfer y diwrnod hwnnw.

Fodd bynnag, gwelsom mai bach iawn o wybodaeth i gleifion oedd yn cael ei harddangos ar y ward am sefydliadau a all roi help a chymorth i gleifion a theuluoedd y mae cyflyrau iechyd meddwl yn effeithio arnynt. Ni ddangoswyd unrhyw wybodaeth am y prosesau cwyno, y Ddeddf Iechyd Meddwl, rôl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, eiriolaeth, diogelu ac adborth. At hynny, gwnaethom nodi nad oedd gwybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos i gleifion yn ymwneud â rhoi'r gorau i smygu, bwyta'n iach, ymarfer corff ac ymwybyddiaeth o alcohol. Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym y bu'r wybodaeth hon ar gael i gleifion a gofawyr yn flaenorol ond bod y bwrdd gwybodaeth wedi'i ddifrodi gan glaf yn ddiweddar ac wedi'i symud. Roedd yn gadarnhaol gweld bod staff yn ymatebol iawn i'n hargymhellion a bod llawer o'r wybodaeth angenrheidiol yn cael ei harddangos yn briodol ar y ward cyn diwedd ein harolygiad. Cawsom sicrwydd y byddai'r mater hwn yn cael ei ddatrys mewn modd amserol.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth berthnasol a chyfredol i gleifion yn cael ei harddangos ar y ward er mwyn sicrhau y caiff cleifion, teulu a gofawyr gymorth i wneud penderfyniadau gwybodus am eu gofal. Rhaid darparu gwybodaeth i gleifion mewn fformat hygyrch i gleifion ag anawsterau cyfathrebu neu nam gwybyddol.

Gofal amserol

Mynediad Amserol

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddysgu bod y tîm amlddisgyblaethol yn gweithio ar y cyd â'r Tîm Anghenion Cymhleth cymunedol, a oedd yn darparu cymorth cynnar ac yn cymryd rhan mewn trafodaethau am achosion cymhleth er mwyn atal derbyniadau diangen i'r ysbyty. Roedd staff y tîm cymunedol yn bresennol mewn cyfarfodydd cleifion perthnasol, gan gynnwys cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol a Lles Pennaf i sicrhau bod pob agwedd ar ofal cleifion yn cael ei darparu mewn modd amserol.

Gwelsom fod amrywiaeth o gyfarfodydd a phrosesau a oedd yn anelu at sicrhau gofal effeithiol i'r cleifion. Roedd y wardiau'n cynnal cyfarfodydd sgrym diogelwch ddwywaith y dydd, Cyfarfodydd Gofal Arbenigol Rhanbarthol dyddiol a chyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol wythnosol i rannu gwybodaeth a thrafod anghenion gofal cleifion. Roedd y staff yn mynychu rowndiau wardiau wythnosol a chyfarfodydd rheolwr tîm a chyfarfodydd Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad misol. Gwelsom fod y cleifion yn cael eu monitro'n rheolaidd a'u bod yn derbyn gofal amserol yn unol ag anghenion clinigol.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom fod cleifion yn cael eu cefnogi i wneud eu penderfyniadau eu hunain lle bynnag y bo modd. Roedd y cleifion yn mynd i sesiynau therapi rheolaidd ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a oedd yn cynnwys sefydliadau allanol cefnogol. Roedd y cleifion yn cael ymweliadau rheolaidd â theulu a gofalwyr a oedd yn cynnwys aros dros nos gyda'r teulu. Gofynnwyd i'r cleifion beth sy'n dda am y ward a dywedwyd wrthym:

“Mae'r staff yn gyfeillgar tuag ataf. Rwy'n mwynhau ymweliadau gartref gyda'r staff yn eu trefnu gyda fy nheulu”

“Mynd allan”

Roedd gan y ward ystafell ymweld lle gallai'r cleifion weld eu teuluoedd yn breifat. Roedd gan rai cleifion fynediad i'w dyfeisiau electronig eu hunain ar sail asesiad risg unigol a galluedd. Roedd y staff yn monitro defnydd diogel y cleifion o ddyfeisiau electronig er mwyn atal unrhyw ddefnydd amhriodol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu cynlluniau gofal a thriniaeth dau glaf. Roedd yn gadarnhaol gweld bod y cynlluniau gofal a thriniaeth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u bod yn canolbwyntio ar adfer ac adsefydlu cleifion yn unigol. Roedd cynlluniau gofal y cleifion yn adlewyrchu'r ffordd yr helpodd y staff nhw i fod yn fwy annibynnol ac yn cynnwys cynlluniau i'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion iechyd, gofal a chymorth. Dywedodd aelodau o'r teulu a gwblhaodd ein holiadur fod y cynllun gofal wedi'i drafod â nhw a'u bod wedi'u hannog i fod yn rhan ohono. Gwnaethom siarad â dau aelod teulu a siaradodd yn angerddol am safon uchel y gofal i gleifion a ddarperir ar y ward. Gofynnwyd iddynt sut y gallai'r lleoliad wella'r gofal a'r gwasanaeth a ddarperir a dywedwyd wrthym:

“Nid oes modd ei wella oherwydd dyma'r lle perffaith i (y claf) gael y gofal sydd ei angen arno”

“Ni allaf ganmol y staff ddigon - maent yn wych. Rydyn ni wastad yn cael croeso cynnes pan fyddwn yn ymweld ac rwy'n gwybod bod (y claf) yn cael y gofal gorau a'i fod yn ddiogel yma”

“Gofal gwych”

Gwnaethom nodi bod cynllunio i ryddhau cleifion wedi'i drafod yn briodol yn ystod rowndiau wardiau wythnosol a chyfarfodydd misol y tîm amlddisgyblaethol. Fodd

bynag, dywedodd y staff wrthym fod tîm y ward a'r tîm aml-ddisgyblaethol wedi profi rhwystrau sylweddol i ryddhau cleifion, a hynny oherwydd lefel a chyflymder ymgysylltiad yr awdurdod lleol ac argaeledd cyfyngedig darparwyr gofal cymdeithasol a llety addas.

Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd gynnal rhagor o drafodaethau gyda'r awdurdod lleol i ddatblygu cynllun ar y cyd i alluogi ffyrdd mwy effeithiol o weithio a fydd yn gwella trefniadau a phrosesau cynllunio i ryddhau cleifion.

Hawliau pobl

Cawsom sicrwydd fod cleifion yn cael eu cefnogi i gael gafael ar wasanaethau eirioli lle bo angen. Cawsom wybod bod y pum claf ar y ward yn destun awdurdodiad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Gwnaethom edrych ar gofnodion trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid tri chlaf a gweld eu bod wedi'u dogfennu'n dda ac wedi'u cwblhau yn unol â deddfwriaeth. Roedd y cleifion yn cael asesiadau trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid o fewn yr amserlenni a nodwyd i'w hadnewyddu. Roedd prosesau monitro cadarn ar waith i sicrhau bod yr awdurdodiadau yn gywir ac yn gyfredol. Roedd gan bob claf Gynrychiolydd Person Perthnasol i'w helpu ym mhob mater yn ymwneud â threfniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid. Gwnaethom nodi bod un claf wedi herio ei awdurdodiad trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid ac roedd y gwaith papur cywir wedi'i gwblhau yn hyn o beth. Fodd bynnag, ni chafodd copïau o'r gwaith papur yn ymwneud â her a threfn y llys eu storio'n gywir yng nghofnodion y cleifion. Codwyd y mater hwn â'r staff ac roedd yn gadarnhaol nodi yr aed i'r afael â'r mater yn ystod yr arolygiad.

Roedd systemau ar waith i wneud dewisiadau er lles y cleifion lle'r oedd ganddynt ddiffyg gallu dros benderfyniadau penodol. Roedd staff y ward yn rhoi penderfyniadau Lles Pennaf y cleifion ar waith yn unol â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ond gwelsom fod ffurflenni'r Asesiad Deddf Galluedd Meddyliol a'r ffurflenni Lles Pennaf o ansawdd amrywiol. Gwnaethom nodi nad oedd pedwar allan o bump o gofnodion meddyginiaeth y cleifion yn cynnwys y ddogfennaeth Asesiad Deddf Galluedd Meddyliol a Lles Pennaf perthnasol. Canfu ein harchwiliad o gofnodion Asesiad Deddf Galluedd Meddyliol a Lles Pennaf fod tri chynllun ffurflen gwahanol yn cael eu defnyddio a bod yr arfarniadau opsiynau wedi'u cyfyngu i restr wirio osod o ymatebion 'ie/na' a oedd yn golygu nad oedd fawr o le am arfarniad opsiynau llawn. Cafodd y ddogfen lles pennaf ei chyfyngu i gofnodi dim ond lles meddygol pennaf y claf ac nid oedd yn cynnwys adrannau i nodi'r elfennau cymdeithasol, emosiynol, moesegol a lles a oedd yn ofynnol yn ôl cyfraith achosion. Gwelsom enghreifftiau yn nogfennau Asesiad Deddf Galluedd Meddyliol a Lles Pennaf lle roedd dau ofyniad statudol ar restr wirio lles pennaf heb eu cynnwys yn y ffurflenni. Roedd y rhain yn cynnwys dymuniadau a theimladau'r claf a thystiolaeth o ymgynghoriad y claf ag eiriolaeth a theulu/gofalwyr.

Rydym yn argymhell y dylai ffurflenni Aseiad Deddf Galluedd Meddyliol a'r ffurflenni Lles Pennaf gael eu cwblhau ar gyfer pob mater meddyginiaeth a'u cynnwys ym mhob cofnod meddyginiaeth claf.

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu dogfennaeth Aseiad Deddf Galluedd Meddyliol a Lles Pennaf i sicrhau ei fod yn darparu'r manylder a ddisgwylir gan y Ddeddf Galluedd Meddyliol a chyfraith achosion. Dylid ystyried dogfennaeth atodol neu amgen lle mae dogfennaeth y bwrdd iechyd yn cyfyngu ar allu'r staff i fodloni gofynion statudol a chyfraith achosion.

Gwranddo a dysgu o adborth

Cadarnhaodd staff y ward, lle bynnag y bo'n bosibl, y byddent yn ceisio datrys cwynion ar unwaith. Roedd gan y bwrdd iechyd broses ar waith lle gallai'r cleifion uwchgyfeirio pryderon drwy weithdrefn gwyno Gweithio i Wella y bwrdd iechyd. Gallai cleifion hefyd fynegi pryderon i'w Cynrychiolydd Personau Perthnasol trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, cawsom wybod fod y Ganolfan Gwasanaethau Cymorth Therapiwtig yn cynnal Cyfarfod Grŵp Defnyddwyr Gwasanaeth wythnosol lle gallai'r cleifion gwyno neu drafod unrhyw faterion. Cawsom wybod fod gwybodaeth o'r cyfarfodydd yn cael ei choladu ac fel rheol byddai'n cael ei gosod ar hysbysfwrdd ar y ward ond nid oedd hysbysfwrdd ar y ward oherwydd difrod diweddar. Yn ystod ein harolygiad, gwnaeth y staff ymdrechion i unioni'r diffyg gwybodaeth am gwynion ac adborth ar y ward drwy arddangos gwybodaeth am weithdrefnau gwyno a blwch awgrymiadau gerllaw'r brif fynedfa.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal Diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod gan yr ysbyty brosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau er mwyn helpu i gynnal iechyd a diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr. Roedd y ward yn ddiogel rhag mynediad anawdurdodedig a byddai pob ymwelydd yn mynd i ardal y dderbynfa er mwyn cael mynediad. Fodd bynnag, nid oedd proses cofnodi ymwelwyr ar yr uned. Gwnaethom fynegi pryder bod hyn yn peri risg o ran iechyd a Diogelwch, tân a diogeledd pe bai unrhyw unigolion yn ymweld â'r uned ac na fyddai modd rhoi cyfrif amdanynt yn ystod argyfwng. Rydym yn argymhell bod yn rhaid rhoi proses archwilio ar waith i sicrhau bod pawb sy'n ymweld â'r uned yn cael eu cofnodi a bod modd rhoi cyfrif amdanynt. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y mater hwn wedi'i unioni yn ystod ein harolygiad a bod llyfr cofnodi ymwelwyr wedi'i leoli wrth fynedfa'r ward.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu'r amgylchedd gofal ac archwiliadau ac asesiadau risg a gefnogodd ofal diogel cleifion. Gwelsom fod asesiadau risg o bwyntiau clymu a hongian cynhwysfawr ar waith a oedd yn nodi pwyntiau clymu posibl a pha gamau a gymerwyd i gael gwared ar y rhain neu eu rheoli. Fodd bynnag, gwnaethom nodi mai'r ward oedd yr adeilad hynaf ar y safle anableded dysgu ac nad oedd wedi cael ei adeiladu gyda phwyntiau gwrth-glymu fel mater o safon. Roedd pwyntiau clymu niferus wedi'u hymgorffori yng ngosodiadau'r ward yr oedd yr archwiliadau clymu wedi'u nodi'n gywir ac wedi mynd i'r afael â nhw. Gwnaethom drafod y risgiau clymu gyda staff a ddywedodd fod mynediad pob claf a dderbynnir i'r ward wedi'i gynllunio ac ar y cyfan, nid oedd y ward yn derbyn unrhyw glaf a oedd yn cyflwyno risg o glymu. Fodd bynnag, gwnaethom ddysgu am achlysur pan roddwyd staff y ward dan bwysau, a hynny yn erbyn cyngor y tîm clinigol, i dderbyn claf amhriodol, oherwydd y risgiau amgylcheddol i'r ward a'r risgiau unigol i'r claf dan sylw. Adolygwyd y broses dderbyn o fewn cyfnod byr o amser a throsglwyddwyd y claf i gyfleusterau mwy priodol. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo nad oedd yr uwch-reolwyr yn ystyried eu safbwyntiau clinigol yn yr achos hwn.

Rydym yn argymhell bod yn rhaid i uwch-reolwyr y bwrdd iechyd ystyried cyfyngiadau'r amgylchedd a barn glinigol y tîm aml-ddisgyblaethol wrth wneud penderfyniadau ar dderbyn cleifion.

Gwnaethom adolygu'r Polisi Lleihau'r Risg o Bwyntiau Clymu a Hongian ar gyfer y Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anabledau Dysgu a oedd yn caniatáu i dderbyn cleifion risg uchel i'r ward, 'er mai prin yr oedd yr achosion hynny'. Nododd y polisi y byddai asesiad risg ar waith i unigolion risg uchel cyn iddynt gael eu derbyn a

byddai hwn yn sbarduno'r asesiad risg o bwyntiau clymu gan arwain at roi mesurau diogelu ychwanegol ar waith. O gofio nifer uchel y pwyntiau clymu ar y ward, gwnaethom argymhell bod yn rhaid diwygio'r polisi pwyntiau clymu i roi gwaharddiad clir rhag derbyn cleifion a oedd yn cyflwyno risg o glymu. Roedd yn gadarnhaol nodi bod geiriad y polisi wedi'i addasu i'r perwyl hwn cyn diwedd ein harolygiad.

Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i roi gwaharddiad ar dderbyn cleifion sy'n cyflwyno risg o glymu ar y ward.

Gwnaethom nodi bod y Polisi Lleihau'r Risg o Bwyntiau Clymu a Hongian yn amlinellu nad oedd bagiau plastig yn cael eu caniatáu ar y ward fel rheol, ond gwnaethom sylwi eu bod yn chwarae rôl allweddol yn ymgysylltiad therapiwtig un claf a oedd yn cadw nifer o fagiau plastig. Gwnaethom argymhell diwygio'r polisi er mwyn rhoi asesiadau risg ychwanegol ar waith pan fo bagiau plastig yn cael eu caniatáu ar y ward a chafodd hyn ei unioni'n briodol yn ystod yr arolygiad.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, cawsom wybod nad oedd gan aelodau o staff larymau personol a byddai'n rhaid iddynt weiddi am gymorth mewn achos o argyfwng. Roedd hyn yn creu problem iechyd a diogelwch i gleifion, staff ac ymwelwyr. At hynny, gwnaethom nodi nad oedd clychau galw yn ystafelloedd gwely'r cleifion a fyddai'n galluogi cleifion i ofyn am gymorth neu i rybuddio staff o argyfwng.

Dylai'r bwrdd iechyd ddarparu system larwm effeithiol a phriodol ar y ward sy'n sicrhau bod modd i staff, cleifion ac ymwelwyr seinio'r larymau pan fo angen.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi bod y staff yn darparu gofal personol da i gleifion, a oedd yn cael ei roi i gleifion ar sail un-i-un fel mater o drefn yn yr ystafelloedd ymolchi a thoiledau, a hynny'n amodol ar asesiadau risg y cleifion. Cawsom wybod y gallai cynnwys unrhyw aelodau o staff ychwanegol yn ystod gofal personol achosi trallod i'r cleifion yn aml. Roedd aelodau unigol o'r staff yn hebrwng y cleifion i weithgareddau oddi ar y ward yn rheolaidd, lle roeddent yn rhoi gofal personol i gleifion yn ôl yr angen.

Rydym yn argymhell diweddarau cynlluniau gofal ac asesiadau risg unigol cleifion er mwyn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am y ffordd y caiff unigolion eu cefnogi yn ardaloedd yr ystafell ymolchi a thoiledau er mwyn i gleifion a staff gael eu diogelu wrth roi gofal personol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd yr ysbyty yn lân, yn daclus ac yn drefnus ar y cyfan ac roedd trefniadau atal a rheoli heintiau addas ar waith. Roedd amrywiaeth o bolisiau cyfredol ar gael a oedd yn nodi'r amrywiol weithdrefnau rheoli heintiau er mwyn cadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel. Roedd amserlenni glanhau ar waith er mwyn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau rheolaidd ac effeithiol yn yr ysbyty. Roedd archwiliadau

rheolaidd wedi cael eu cwblhau er mwyn cadarnhau bod yr amgylchedd yn lân a sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau'r ysbyty. Roedd y cyfarpar glanhau yn cael ei storio a'i drefnu'n briodol. Gwnaethom adolygu sampl o archwiliadau a oedd yn gysylltiedig ag atal a rheoli heintiau, gan gynnwys hylendid dwylo, gan nodi lefelau cydymffurfiaeth uchel. Roedd yr archwiliadau hyn yn cael eu hategu gan archwiliadau rheolaidd gan reolwr y ward. Roedd yn gadarnhaol nodi bod 93% o'r aelodau o staff yn cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen rhai gwelliannau mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi bod bwydydd a byrbrydau cleifion unigol yn cael eu storio yn oergell-rhewgell y gegin. Gwelsom fod yr oergell-rhewgell yn orlawn ac roedd angen ei glanhau gan fod rhywfaint o hylif wedi gollwng a sychu ar silffoedd y drws. Cawsom wybod mai staff y ward oedd yn gyfrifol am lanhau oergell y gegin a'r tu mewn i'r cypyrddau yn ddyddiol, ac eto nid oedd hyn yn cael ei amlinellu'n glir wrth drosglwyddo nac yn y ddogfennaeth o dasgau dyddiol er ymwybyddiaeth parhaus y staff. Trafodwyd y mater hwn â'r staff ac roedd yn gadarnhaol nodi bod yr oergell/rhewgell wedi'i glanhau yn ystod ein harolygiad. **Rydym yn argymhell atgyfnerthu cyfrifoldebau glanhau staff y ward yn ddyddiol er mwyn sicrhau y caiff y ward ei glanhau'n briodol ac yn effeithiol.**

Gwnaethom edrych ar wiriadau tymheredd oergell-rhewgell y ward a gwnaethom nodi bod sawl achos wedi'i gofnodi pan oedd tymheredd oergell y gegin y tu allan i'r ystod tymereddau derbyniol. Cofnodwyd bod tymheredd y rhewgell islaw'r ystod tymereddau derbyniol ar bob dyddiad ond pedwar ym mis Mawrth cyn ein harolygiad. Gwnaethom drafod y mater hwn gyda'r staff goruchwylio a roddodd wybod eu bod wedi gofyn am oergell-rhewgell newydd i'r uned. **Rydym yn argymhell bod oergell-rhewgell gwbl weithredol yn cael ei darparu i gegin y ward sy'n cynnig digon o le storio ac sy'n sicrhau diogelwch y cleifion.**

Gwnaethom nodi bod tymheredd oergell yr ystafell staff uwchlaw'r ystod tymereddau derbyniol ar ddau ddyddiad ym mis Mawrth 2023. Cofnodwyd bod oergelloedd yr Ystafell Dialysis a Llesiant islaw'r ystod tymereddau derbyniol ar un diwrnod ym mis Mawrth. Roedd hi'n bryder nodi na welsom dystiolaeth o unrhyw wiriadau ychwanegol yn cael eu cynnal pan gafodd y materion hyn eu cofnodi ac nad oedd y mater hwn wedi'i uwchgyfeirio fel mater iechyd a diogelwch posibl. **Rydym yn argymhell bod yn rhaid codi, uwchgyfeirio a mynd i'r afael yn briodol ag achosion pan na fydd tymereddau oergell y ward o fewn yr ystodau tymheredd derbyniol er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch y cleifion, y staff a'r ymwelwyr.**

Yn ystod ein harolygiad o gegin y ward, gwelsom fwyd cleifion wedi'i agor yn oergell a chypyrddau'r gegin nad oeddent yn dangos gwybodaeth o ran pryd yr agorwyd y bwyd. Gwelsom hefyd fod grawnfwydydd yn cael eu cadw mewn

cynwysyddion heb labeli felly roedd hi'n amhosibl gwybod y dyddiad agor na'r dyddiadau ar eu gorau.

Rydym yn argymhell bod bwyd cleifion unigol a chymunedol yn cael ei labelu'n briodol. Rhaid archwilio eitemau bwyd a thaflu eitemau sydd wedi dirwyn i ben er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion. Dylai taflenni tasgau dyddiol y staff gael eu diweddarau er mwyn adlewyrchu eu rôl a'u cyfrifoldebau yn hyn o beth.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi nad oedd sinc a fyddai'n caniatáu ar gyfer hylendid dwylo yn yr ystafell ddialysis.

Rydym yn argymhell gosod sinc yn yr ystafell ddialysis er mwyn sicrhau bod trefniadau atal a rheoli heintiau digonol ar waith ar y ward.

Yn ystod ein taith o'r ward, gwnaethom sylwi bod y cyfleusterau golchi dillad a'r cwpwrdd dillad gwely yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda a'u trefnu'n dda.

Gwnaethom nodi bod dillad gwely'r cleifion yn cael eu golchi ar wahân ond yn yr un peiriant golchi â dillad y cleifion, ond cawsom sicrwydd fod y peiriant golchi diwydiannol yn cael cylchoedd dihalogi priodol rhwng golchfeydd a oedd yn atal unrhyw faterion atal a rheoli heintiau. Fodd bynnag, cadarnhaodd yr uwch staff fod arferion gorau yn mynnu y dylai dillad gwely cleifion gael eu golchi mewn peiriant ar wahân i'w dillad personol.

Rydym yn argymhell darparu peiriant golchi ychwanegol ar gyfer y ward er mwyn atal rhag golchi dillad y cleifion a dillad gwely'r cleifion yn yr un peiriant.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom nodi bod y sofffa a'r ffrâm sefyll yn lolfa bersonol un claf wedi'u difrodi ar ôl i glaf eu cnoi yn ddiweddar. Roedd hyn yn cyflwyno mater atal a rheoli heintiau a oedd yn atal rhag glanhau'r eitemau hyn yn effeithiol.

Rydym yn argymhell atgyweirio neu newid y sofffa a'r ffrâm sefyll er mwyn sicrhau atal a rheoli heintiau effeithiol. Dylai cynlluniau gofal cleifion gael eu diweddarau i gynnwys pa mor aml y caiff eitemau cleifion, sy'n cael eu difrodi'n rheolaidd, eu harchwilio a'u hatgyweirio.

Maeth a hydradu

Roedd anghenion maeth a hydradu'r cleifion yn cael eu hasesu, eu cofnodi a'u diwallu yn briodol. Rhoddwyd dietau i gleifion yn unol â'u hanghenion meddygol ac unigol. Roedd asesiadau llyncu wedi'u cwblhau gan nyrsys a oedd wedi cael hyfforddiant ychwanegol. Roedd y cleifion yn cael diet ysbyty cytbwys o ran maeth ond roedd modd iddynt hefyd brynu a storio bwyd a byrbrydau ar y ward. Roedd staff y ward yn gefnogol o ddewisiadau a chymeriant bwyd cleifion unigol ac roedd yn gadarnhaol sylwi ar y staff yn cefnogi ac yn annog cleifion ac yn bwyta gyda nhw adeg prydau bwyd.

Rhoddwyd bwydlen ddyddiol i'r cleifion a oedd yn cynnwys amrywiaeth o ddewisiadau. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom sylwi fod y bwyd a weinir i'r cleifion yn edrych yn flasus. Fodd bynnag, mynegodd y staff bryderon fod y bwyd yn annymunol ar y cyfan. Gwnaethant esbonio fod y bwyd yn cael ei goginio ymlaen llaw yn y prif ysbyty ryw bellter i ffwrdd cyn cael ei drosglwyddo i gegin orffen yr ysbyty lleol ac yna ei anfon i'r ward i'w weini. At hynny, cawsom wybod bod dognau'r prydau'n rhy fach ac yn aml, roedd yn rhaid i staff y ward ddarparu bwyd ychwanegol i ychwanegu at y dognau bwyd annigonol a oedd yn cael eu darparu gan y prif ysbyty.

Dylai'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad o ansawdd a maint dognau'r bwyd a weinir i gleifion i sicrhau eu bod yn bodloni'r claf ac yn bodloni'r gofynion maethol.

Yn ystod yr arolygiad, cawsom wybod bod cleifion yr oedd angen cymorth dietetig arnynt yn cael eu hatgyfeirio at yr ysbyty gofal aciwt lleol yn lle derbyn cymorth ar y ward.

Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd ddarparu mewnbwn sesiynol gan ddietydd i'r ward a fydd yn galluogi asesiad a chynllunio gofal rhagweithiol gan arbenigwr.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod system rheoli meddyginiaethau priodol ar waith yn yr ysbyty ar y cyfan. Gwelsom fod polisiâu perthnasol, megis Rheoli Meddyginiaethau a Thawelyddu Cyflym, ar gael i'r staff yn electronig ar gyfrifiaduron ond gwnaethom nodi bod y polisi Tawelyddu Cyflym wedi dirwyn i ben ym mis Mawrth 2022. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar ystafell glinig y ward a gweld ei bod yn daclus ac yn drefnus iawn. Roedd y feddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel ac yn cael ei harchwilio'n rheolaidd. Roedd Cyffuriau a Reolir yn cael eu storio a'u rhoi'n gywir, yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau. Roedd yn gadarnhaol gweld bod ffotograffau o gleifion wedi'u cysylltu â Chofnodion Rhoi Meddyginiaeth er mwyn helpu i'w hadnabod. Gwelsom dystiolaeth bod adolygiadau o feddyginiaethau yn cael eu cwblhau'n rheolaidd yn ystod rowndiau ward wythnosol a gwnaethom sylwi bod meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi mewn modd sensitif a phriodol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom sylwi bod awdurdod ar gael i roi meddyginiaethau mewn modd cudd i glaf ar adegau pan oedd yn gwrthod meddyginiaeth. Cawsom wybod bod cylchrediad e-bost wedi'i greu a oedd yn rhoi cyfarwyddiadau i'r staff o ran blaenoriaethu'r gwaith o roi meddyginiaethau yn nhrefn pwysigrwydd. Fodd bynnag, ni chofnodwyd y wybodaeth hon yng nghofnodion y cleifion ac nid oedd y manylion yn yr adran 'Cyfarwyddiadau Arbennig' o'u Cofnod Rhoi Meddyginiaeth.

Rydym yn argymhell cofnodi cyfarwyddiadau arbennig mewn perthynas â meddyginiaeth cleifion yng nghofnodion meddyginiaeth y cleifion i sicrhau bod yr holl staff yn ymwobodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, cawsom wybod nad oedd y ward na'r tîm amlddisgyblaethol yn cael mewnbwn fferyllfa Anabledau Dysgu arbenigol dynodedig a rheolaidd. Dywedodd y staff wrthym yr arferai archwiliadau fferyllol gael eu cynnal yn fisol yn flaenorol ond ar sail 'doed a ddelo' roeddent bellach yn cael eu cynnal.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff archwiliadau fferyllol rheolaidd eu cynnal ar y ward.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Roedd y staff yn gallu gweld gweithdrefnau diogelu'r bwrdd iechyd ar ei fewnrwyd. Roedd polisïau a phrosesau sefydledig y bwrdd iechyd ar waith er mwyn sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion agored i niwed, ac roedd achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol fel y bo'n ofynnol. Roedd yn ddymunol canfod bod 96.97% o'r staff yn cydymffurfio â Hyfforddiant Diogelu Oedolion gorfodol ar lefelau un a dau ar y cyfan. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad ac a gwblhaodd ein holiadur eu bod yn teimlo'n ddiogel ar y ward. Roedd y cleifion yn cael eu cefnogi gan wasanaethau trydydd sector a allai hefyd fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a allai fod ganddynt.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar ddigwyddiad diogelu diweddar a gwnaethom nodi cydymffurfiaeth dda â gofynion a gweithdrefnau diogelu Cymru Gyfan. Roedd yn gadarnhaol gweld bod y staff yn dangos dealltwriaeth dda o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o ran diogelu'r agweddau penodol ar y grŵp cleifion a oedd yn eu gwneud yn agored i niwed. Cawsom ragor o sicrwydd bod mesurau diogelu priodol ar waith yn sgil lefelau staffio da ac yn sgil monitro cleifion yn agos.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd y cyfarpar dadebru yn cael ei archwilio'n wythnosol gan staff. Cafodd y gwiriadau papur ac electronig angenrheidiol eu dogfennu'n gywir ond gwnaethom nodi rhai materion a oedd yn cyflwyno risg posibl i ddiogelwch cleifion.

Gwelsom y dylai'r peiriant sugno sy'n gysylltiedig â chyfarpar dadebru'r ward gael ei wasanaethu'n flynyddol ond roedd yn dangos mai 2021 oedd dyddiad dirwyn i ben y prawf. Roedd hyn yn cyflwyno risg bosibl i ddiogelwch cleifion. Rhoesom wybod i'r staff am y broblem hon a daeth y staff o hyd i beiriant sugno arall a oedd yn dangos dyddiad dirwyn i ben ym mis Mehefin 2023 ar unwaith a'i gysylltu.

Rydym yn argymhell rhoi mesurau cadarn ar waith i sicrhau y caiff cyfarpar dadebru ei wasanaethu o fewn yr amserlenni gosod i sicrhau diogelwch y cleifion.

At hynny, gwnaethom nodi bod y diffibriliwr yn gweithio'n iawn ond bod y batri sbâr ar goll.

Rydym yn argymhell cael batri sbâr i'r diffibriliwr er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod systemau a threfniadau llywodraethu da ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion.

Cadarnhaodd y cyfarfodydd y gwnaethom eu mynychu a'r dystiolaeth a gawsom yn ystod yr arolygiad fod ymchwiliadau yn cael eu cynnal i ddigwyddiadau a'u bod yn cael eu rheoli'n briodol. Roedd proses o reoli ac uwchgyfeirio digwyddiadau ar waith er mwyn sicrhau bod adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu hadolygu'n amserol. Cadarnhaodd y staff eu bod yn cael ôl-drafodaethau yn sgil digwyddiadau a bod unrhyw wersi perthnasol yn cael eu rhannu â'r staff ar lafar ac yn electronig.

Gwnaethom adolygu cynlluniau gofal a thriniaeth dau glaf a gwelsom eu bod yn cael eu cadw i safon dda. Roedd y cofnodion yn gynhwysfawr ac roedd adnoddau asesu cydnabyddedig yn cael eu defnyddio i fonitro iechyd meddwl a chorfforol. Roedd y cynlluniau gofal yn fanwl iawn, wedi'u teilwra at yr unigolyn ac yn adlewyrchu amrywiaeth eang o elfennau o gyfranogiad gan y tîm amlddisgyblaethol. Gwelsom dystiolaeth o asesiadau o anghenion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac asesiadau risg a oedd yn sicrhau gofal diogel y cleifion.

Dangosodd staff y ward eu bod yn canolbwyntio ar sicrhau eu bod yn cadw i fyny ag arferion gorau, arweiniad cenedlaethol a phroffesiynol a ffyrdd arloesol o weithio. Roedd yn ddymunol gweld bod y ward wedi rhoi system o 'Hyrwyddwyr' staff ar waith ar gyfer agweddau gwahanol o ofal cleifion a dangoswyd rhestr o Hyrwyddwyr yn swyddfa'r staff er mwyn i bawb fod yn ymwybodol ohoni. Cynigiodd hyn gyfleoedd dysgu a datblygu i'r staff a oedd yn dymuno arbenigo mewn meysydd gofal cleifion penodol, a phwyntiau cyswllt defnyddiol i'r staff yr oedd angen arweiniad ychwanegol arnynt. Gwnaethom nodi bod rhai aelodau o'r staff nyrsio hefyd wedi cael hyfforddiant ychwanegol i ddatblygu rolau estynedig ar y ward.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol - Ymddygiadau sy'n herio

Yn ystod yr arolygiad, gwnaeth y staff ddangos dealltwriaeth dda o'r arferion cyfyngol a hefyd fesurau ataliol priodol a all leihau'r angen am ymatebion cyfyngol i ymddygiad heriol. Cwblhaodd y staff goruchwylio hyfforddiant Ymyriadau Corfforol Cyfyngol i lefel hyfforddwr a oedd yn ymgorffori lefel wybodaeth a sgiliau uwch o fewn y tîm o staff. Gwelsom dystiolaeth mai dim ond pan fetho popeth arall y byddai arferion cyfyngol yn cael eu defnyddio, gyda gwaith monitro trylwyr ynglŷn ag effaith a risgiau therapiwtig, a thactegau tynnu sylw ar waith fel dull o lonyddu. Dangosodd y staff fod achosion o arferion cyfyngol yn cael eu cofnodi a'u monitro'n briodol trwy gofnodion gofal cleifion unigol, cofnodion Ymyriad Corfforol Cyfyngol a chynlluniau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol wedi'u diweddarau. Gwelsom fod y tîm amlddisgyblaethol ac uwch-reolwyr yn adolygu'r defnydd o arferion cyfyngol yn rheolaidd. Trafodwyd cydymffurfiaeth y staff â'r Ymyriad Corfforol Cyfyngol mewn sgrymiau dyddiol i sicrhau bod niferoedd priodol o staff hyfforddedig ar bob shift.

Gwelsom fod cynlluniau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol ansawdd uchel ar waith a oedd yn rhoi manylion am y mesurau ataliol a chynlluniau gofal penodol ar gyfer ymyriad corfforol. Roedd cynlluniau gweithgareddau wedi'u teilwra at yr unigolyn ar waith ar gyfer cleifion a gallent gael preifatrwydd yn eu hystafelloedd gwely eu hunain os oedd angen. Gwnaethom nodi bod gan un claf ystafell ychwanegol yn y ward a oedd yn cael ei defnyddio ar gyfer strategaethau ysgogiad isel, lonyddu ac ymatebol. Gwnaethom edrych ar gofnodion arsylwi therapiwtig ar gyfer dau glaf a gweld bod cleifion yn cael eu monitro'n effeithiol ac yn briodol a oedd yn lleihau'r risg o ymddygiadau heriol.

Roedd yn ddymunol canfod bod cleifion yn cael safon uchel o ofal ond nodwyd bod amrywiaeth eang o oedrannau a gofynion gofal ymhlith y cleifion ar y ward. Gwnaethom edrych ar ddigwyddiad diweddar ar Datix o ymosodiad gan un claf ar un arall a nodwyd ei fod wedi digwydd rhwng y cleifion ieuengaf a hynaf ar y ward. At hynny, gwnaethom nodi nad oedd cynllun ardaloedd cymunedol y ward a'r lolfa yn darparu fawr ddim lle i wahanu pan oedd y fath ddigwyddiadau'n cymryd lle. Roedd gan y ward ardaloedd cyfyngedig i gleifion gilio iddynt ar wahân i'w hystafelloedd gwely a gwnaethom ddysgu bod un coridor cyfan o'r ward yn cael ei ddefnyddio i wahanu un claf am gyfnodau, a oedd yn atal cleifion eraill rhag mynd i'w hystafelloedd gwely ar yr adegau hynny.

Rydym yn argymhell bod y bwrdd iechyd yn ystyried pa mor addas yw cleifion o oedrannau a gofynion gofal amrywiol i dderbyn gofal yn yr un amgylchedd clinigol, o gofio'r lle cyfyngedig sydd ar gael i'w gwahanu.

Yn ystod yr arolygiad, dywedodd y staff wrthym y gall y brif lolfa fynd yn eithaf swnllyd oherwydd maint ac acwsteg yr ardal, a allai waethygu unrhyw anghenion synhwyraidd a chael effaith negyddol ar ymddygiad cleifion gydag anabledd dysgu.

Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd ddarparu mesurau amsugno sŵn ychwanegol yn ardal y lolfâ er mwyn sicrhau bod y cleifion, y staff a'r ymwelwyr yn gysurus.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Yn ystod ein trafodaethau â staff y ward a'r uwch-reolwyr, cawsom lawer o enghreifftiau lle roeddent yn adolygu'r gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu ar y wardiau ac yn y bwrdd iechyd yn fwy cyffredinol. Cafwyd cyfarfodydd rheolaidd lle roedd gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng staff i sicrhau bod dysgu a gwelliant o ansawdd yn cael ei rannu. Roedd y pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn cynnal cyfarfodydd misol i nodi materion, pwyntiau dysgu, themâu a thueddiadau.

Roedd yn gadarnhaol dysgu am gynllun pum mlynedd parhaus yr ysbyty i ddatblygu strategaeth gyda'r awdurdod lleol a fydd yn darparu cymorth cymunedol i bobl gydag anabledd dysgu ac yn lleihau derbyniadau ysbyty. Mae'r cynllun yn cynnwys ailddatblygu safle'r ysbyty presennol ac adeiladu Uned Asesu a Thrin wedi'i hadeiladu i bwrpas a fydd yn mynd i'r afael â'r heriau presennol y mae oedran yr adeilad yn ei gyflwyno a'i faterion o ran risg a chynnal a chadw.

Ymfalchiodd y staff mewn tynnu sylw at waith da y ward a gwnaethant gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r nod o wella ansawdd gofal y claf yn barhaus. Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, roedd yn gadarnhaol dysgu ynghylch cyflawniadau niferus tîm y ward. Yn 2018, lansiodd y bwrdd iechyd Gynllun Achredu'r Ward sy'n ceisio gwella safon ac ansawdd gofal y cleifion drwy broses o berfformiad, asesiad a gwelliant parhaus. Ar adeg ein harolygiad, roedd y ward wedi cyflawni achrediad arian y bwrdd iechyd ac roedd yn ymdrechu i gyflawni achrediad aur. Roedd yn ddymunol dysgu bod tîm y ward wedi cwblhau hunanarchwiliadau yn erbyn safonau cleifion mewnol Rhwydwaith Ansawdd ar gyfer Anableddau Dysgu Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, a'i fod wedi defnyddio eu canfyddiadau i nodi unrhyw welliannau ansawdd angenrheidiol. Yn 2021, enillodd tîm y ward wobwr Nyrsio Anableddau Dysgu y Nursing Times ac roedd yn gadarnhaol dysgu bod staff y ward wedi mynychu cynadleddau cenedlaethol i gyflwyno sesiynau llawn gwybodaeth i fyrddau iechyd eraill mewn perthynas â gofal y cleifion.

Cadw cofnodion

Gwelsom nad oedd cofnodion cleifion a data yr oedd modd adnabod cleifion ohonynt yn cael eu cadw'n ddiogel bob amser er mwyn sicrhau bod cyfrinachedd yn cael ei gynnal. Roedd y bwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion wedi'i orchuddio ac yn cael ei gadw yn swyddfa'r nyrsys lle nad oedd modd i gleifion nac ymwelwyr ei weld. Roedd system ffeilio papur sefydledig ar waith ac roedd y ffeiliau'n cael eu storio'n ddiogel ar y ward. Gwelsom fod y cofnodion papur wedi'u trefnu'n dda ac yn hawdd eu llywio. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod cynlluniau gofal a dogfennau cleifion presennol yn cael eu tynnu o ffeiliau blaenorol fel mater o

drefn a'u trosglwyddo i ffeiliau presennol y cleifion a oedd yn creu risg o golli dogfennau.

Rydym yn argymhell ychwanegu cerdyn olrhain at rannau o ffeiliau cleifion pan fydd y cynnwys wedi'i symud o un ffeil i un arall.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi bod diffyg system cofnodion iechyd electronig yn atal rhag rhannu gwybodaeth yn effeithiol ac wedi achosi anawsterau i staff y ward gyflawni eu dyletswyddau. Roedd cofnodion y cleifion ond ar gael i aelodau o'r staff a oedd yn gorfforol bresennol ar y ward ac nid i'r rhai sy'n gweithio o bell. Gwnaethom fynychu'r rownd ward wythnosol lle ymunodd nifer o fynychwyr y tîm amlddisgyblaethol â'r cyfarfod o bell ac felly ni chawsant fynediad i gofnodion y cleifion. Yn ystod y cyfarfod, gwnaethom nodi bod un claf ar y ward wedi'i drosglwyddo i'r ysbyty aciwt lleol gyda'i gofnodion meddygol, felly nid oedd y cofnodion ar gael i'r tîm amlddisgyblaethol yn ystod rownd y ward. Roedd yn rhaid i'r staff roi diweddariad ar y claf o'i gof yn ystod y cyfarfod, ac nid oedd modd diweddarau cofnod y claf yn ystod rownd y ward.

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei brosesau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth berthnasol â chleifion sy'n cael eu trosglwyddo i'r ysbyty i sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei chadw ar y ward, sy'n galluogi ar gyfer cyfathrebu effeithiol ac adolygiad gan y tîm amlddisgyblaethol.

Rydym yn argymhell bod y bwrdd iechyd yn adolygu'r system cofnod iechyd gyfredol gyda'r bwriad o roi system cofnod iechyd electronig ar waith yn y dyfodol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwnaethom wahodd y staff i gwblhau holiaduron AGIC ar ôl yr arolygiad er mwyn cael gwybod eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty. Cawsom ddau ymateb i gyd gan y staff yn y lleoliad.

Roedd ymatebion y staff yn gadarnhaol gan mwyaf, gyda'r holl ymatebwyr yn cytuno y byddent yn hapus i'r lleoliad hwn ddarparu gofal a chymorth i rywun yr oedden nhw'n poeni amdano petai ganddo/ganddi anabledydd dysgu. Caiff rhai o ganlyniadau'r holiadur a sylwadau gan aelodau o'r staff eu nodi yn yr adroddiad hwn.

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Gwelsom fod strwythur llywodraethu effeithiol ar waith o ran gweithgareddau a chyfarfodydd i drafod digwyddiadau, canfyddiadau a materion ynglŷn â gofal cleifion a oedd yn cefnogi gwelliannau a dysgu ar y cyd yn sgil digwyddiadau a digwyddiadau negyddol difrifol. Roedd strwythur trefniadol y ward yn darparu llinellau rheoli ac atebolrwydd clir ond gwnaethom nodi mai 64% oedd y gydymffurfiaeth â goruchwyllo diweddar ar gyfer nyrsys ac mai 95% ydoedd ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd.

Rydym yn argymhell y dylid gwneud ymdrechion parhaus i wella cydymffurfiaeth â goruchwyllo o ran y nyrsys.

Roedd yn gadarnhaol arsylwi ar waith tîm cryf ac arweinyddiaeth gefnogol drwy gydol ein harolygiad. Siaradodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom gyfweld â nhw yn frwdfrydig am eu rolau. Gwelsom dîm o staff cyfeillgar a phroffesiynol a oedd yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau ac roeddent yn ymddangos yn wybodus am anghenion gofal y cleifion roeddent yn gyfrifol amdanynt.

Yn ystod ein hamser ar y ward, gwelsom ddiwylliant cadarnhaol gyda chydberthnasau da rhwng y staff a oedd yn cydweithio'n dda fel tîm. Roedd hi'n amlwg bod y staff yn ceisio darparu lefelau uchel o ofal i'r grŵp cleifion. Gwnaeth y staff ganmol y cymorth gan gydweithwyr gan gyfeirio at ethos da o weithio fel tîm yn yr ysbyty. Roedd yn ddymunol dysgu bod y staff goruchwyllo yn trefnu diwrnodau meithrin tîm a gweithgareddau llesiant a oedd yn canolbwyntio ar wella cydberthnasau gweithio a morâl y staff. Roedd y staff yn ymroddedig i'w rolau ac roedd llawer ohonynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau therapiwtig i gleifion y tu allan i'w horiau gwaith craidd. Roedd yr ysbyty yn darparu canolfan llesiant i'r staff lle gallent dderbyn cymorth iechyd meddwl a llesiant. Fodd bynnag, gwelsom fod yr ystafell staff rhyw cymysg ar y ward yn rhy fach i anghenion y staff. Nid oedd digon o le i'r staff hongian eu dillad na newid yn gyfforddus a gydag urddas.

Rydym yn argymhell darparu cyfleusterau storio ychwanegol i sicrhau bod digon o le storio ar gyfer eiddo staff a digon o gyfleusterau newid i'r staff.

Cawsom wybod bod uwch-reolwyr yn mynychu'r ward yn rheolaidd fel rhan o'u hamserlen waith. Dywedodd rhai aelodau o'r staff fod cymorth a chyfranogiad da gan staff goruchwyllo ac uwch-reolwyr. Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo nad oedd yr uwch-reolwyr yn ddigon amlwg ar y ward. Hwyrach yr hoffai'r bwrdd iechyd gynnal rhagor o drafodaethau â'r staff mewn perthynas â ffyrdd o wella cyfranogiad a gwelededd uwch-reolwyr. Dywedodd rhai aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad a'r holl staff a gwblhaodd ein holiadur ar-lein wrthym nad oedd y cyfathrebu rhwng y staff a'r uwch reolwyr yn effeithiol a nodwyd na wnaeth yr uwch staff geisio eu cynnwys mewn penderfyniadau pwysig na gweithredu ar adborth y staff. Dywedon nhw wrthym:

“Mae'r staff ar y ward yn ceisio gwneud eu gorau glas ar y cyfan, ond nid yw'r uwch-reolwyr bellach yn gwrando ar uwch-glinigwyr, ac maent yn gwrthdroi penderfyniadau clinigol mewn perthynas â derbyniadau. Mae hyn yn rhoi'r system gyfan dan bwysau ac mae wedi cyfrannu at salwch staff, colli staff a chanlyniadau gwael i gleifion ar adegau. Mae hyn wedi dod yn broblem barhaus y mae uwch-glinigwyr yn aflwyddiannus wrth geisio ei stopio.”

Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd gynnal ymgynghoriadau pellach â'r staff er mwyn trafod ffyrdd o gynnwys staff y ward mewn penderfyniadau pwysig.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom nodi bod sawl un o bolisiâu'r bwrdd iechyd a gweithdrefnau gweithredu safonol wedi dyddio fel a ganlyn:

- Polisi Tawelyddu Cyflym - Mawrth 2022
- Polisi Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol - Mawrth 2021
- Canllawiau Rheoli Meddyginiaethau ar gyfer Timau Trin Iechyd Meddwl Oedolion yn y Cartref - Ionawr 2019
- Polisi a Gweithdrefn Gwyno - Mawrth 2023
- Polisi Atal yn Gorfforol - Hydref 2022
- Polisi Ymgysylltu ac Arsylwadau Therapiwtig - Rhagfyr 2021
- Polisi ar gyfer Arferion Recriwtio a Dethol Diogel - Mehefin 2019
- Cael Gwared ar Bwyntiau Clymu yn Ddiogel - Gweithdrefn Weithredu Safonol - Ionawr 2023

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu unrhyw bolisiâu y mae eu dyddiadau adolygu wedi mynd heibio. Mae'n bwysig bod polisiâu a gweithdrefnau yn cael eu diweddarau a'u hadolygu er mwyn cefnogi'r staff yn eu rolau.

Y Gweithlu

Yn ystod ein harolygiad, roedd yn ddymunol canfod bod lefelau staffio yn ddigonol, yn briodol ac yn cefnogi diogelwch y cleifion. Dywedodd yr uwch aelodau o'r staff nad oedd angen i'r ward ddefnyddio staff asiantaeth ond llwyddodd i gynnal lefelau staffio digonol gyda chymorth staff banc a staff y ward. Roedd yn gadarnhaol cael gwybod bod y ward yn mynd ati'n weithgar i geisio recriwtio, cadw a datblygu aelodau o staff presennol. Ar adeg ein harolygiad, cawsom wybod bod pedair swydd Cynorthwydd Gofal Iechyd wag ar y ward a oedd yn mynd trwy broses recriwtio, a dwy swydd Nyrs Gofrestredig wag a fyddai'n cael eu llenwi'n fuan gan nyrsys dan hyfforddiant a oedd eisoes yn aelodau o staff.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod prinder staff cyflenwi ar gyfer aelodau absennol o'r Tîm Amlddisgyblaethol, sy'n cynnwys staff therapi lleferydd ac iaith a'r fferyllfa, yn debygol o effeithio ar berfformiad staff a thriniaeth i gleifion ar y ward.

Dywedwyd wrthym fod rhai nyrsys wedi gorfod ymestyn eu rolau er mwyn cyflenwi'r bylchau yn y tîm amlddisgyblaethol a darparu gwasanaethau ychwanegol i gleifion fel asesiadau dysffagia, a fyddai'n cael eu cynnal gan Therapydd Lleferydd ac iaith fel arfer.

Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad o ofynion y tîm amlddisgyblaethol er mwyn sicrhau bod digon o staff cyflenwi yn bresennol ar gyfer y Therapydd Galwedigaethol, Therapi Lleferydd ac iaith a fferylliaeth er mwyn darparu gofal priodol ac ymatebol i gleifion.

Gwnaethom adolygu cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ar y ward a nodwyd gennym fod y mwyafrif o gofnodion hyfforddiant yn cael eu cofnodi ar y system Cofnodion Staff Electronig. Fodd bynnag, cafodd hyfforddiant Ymyriadau Corfforol Cyfyngol ei gofnodi drwy ddulliau eraill ac nid oedd yn rhan o'u sgôr gyffredinol ar gyfer cydymffurfio â hyfforddiant yn eu Cofnodion Staff Electronig. Yn ystod yr arolygiad, cawsom ffigurau hyfforddiant a oedd yn nodi bod cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn gyffredinol uchel ar 89.25%. Cawsom wybod bod rhywfaint o hyfforddiant a oedd yn weddill eisoes wedi'i gwblhau ond nid oedd wedi cael ei ddiweddarau i'r system Cofnodion Staff Electronig a allai gymryd misoedd i'w diweddarau. Felly, roedd yn anodd cael darlun cywir o ffigurau cydymffurfiaeth â hyfforddiant cyffredinol.

Gwnaethom nodi bod cydymffurfiaeth gyffredinol â hyfforddiant Ymyriadau Corfforol Cyfyngol yn isel ar 54.55%. Gwnaethom drafod y mater hwn â'r staff goruchwylio a amlinellodd fod y gydymffurfiaeth yn isel gan mwyaf oherwydd argaeledd cyrsiau hyfforddiant ond hefyd oherwydd bod 8 o'r 31 o aelodau o staff wedi'u heithrio rhag cwblhau'r hyfforddiant. Felly, 73% o'r gweithlu fyddai'r gydymffurfiaeth uchaf bosibl ag Ymyriadau Corfforol Cyfyngol. Gwnaethom nodi mai 75% oedd y gydymffurfiaeth gyffredinol â Symud a thrin lefel 2, 69.70% oedd Adfywio lefel 2 a 42%, 78% a 72% oedd y cyrsiau prawf ffitrwydd, cyfarpar diogelu

personol a masgiau. Rydym yn argymhell y gwelliannau canlynol o ran hyfforddiant gorfodol:

- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod aelodau o'r staff yn cael eu cefnogi i fynychu hyfforddiant gorfodol er mwyn gwneud yn siŵr bod aelodau o'r staff yn cael y sgiliau a'r wybodaeth briodol i'w helpu i gyflawni eu rolau
- Dylid adolygu'r system matrices hyfforddiant er mwyn sicrhau bod modd cael hyd i ffigurau cyfredol a chywir ynglŷn â chydymffurfiaeth â hyfforddiant er mwyn i lefelau hyfforddiant staff gael eu rheoli'n effeithiol ac er diogelwch y cleifion a'r staff
- Dylid adolygu'r system matrices hyfforddiant gyda'r nod o gofnodi cydymffurfiaeth pob aelod o'r staff â hyfforddiant ar un system er mwyn gallu llywodraethu a monitro'r sefyllfa yn hwylus.

Roedd yn ddymunol gwybod bod y ward yn ceisio datblygu aelodau o staff drwy gynnig cyrsiau ychwanegol gan gynnwys Makaton, dialysis a Chymraeg. Dywedodd y staff a gwblhaodd ein holiadur ar-lein y byddent yn elwa ymhellach ar hyfforddiant ychwanegol mewn cyrsiau fel Therapi Cerddoriaeth, Therapi Celf, Therapi Naratif, Therapi sy'n Canolbwyntio ar Drugaredd a diweddariadau i Hyfforddiant Cyfathrebu.

Rydym yn argymhell bod y bwrdd iechyd yn ystyried ac yn adolygu unrhyw gyrsiau hyfforddiant ychwanegol a fyddai'n datblygu staff ac o fantais i'r cleifion ar y ward.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd proses cofnodi ymwelwyr ar gael yn yr uned.	Roedd hyn yn peri risg bosibl o ran lechyd a Diogelwch, tân a diogeledd pe bai unrhyw unigolion yn ymweld â'r uned ac na fyddai modd rhoi cyfrif amdanynt yn ystod argyfwng.	Gwnaethom drafod y mater hwn gyda staff ac argymell bod yn rhaid rhoi proses archwilio ar waith i sicrhau bod pawb sy'n ymweld â'r uned yn cael eu cofnodi a bod modd rhoi cyfrif amdanynt.	Roedd yn gadarnhaol nodi bod y mater hwn wedi'i unioni yn ystod ein harolygiad a bod llyfr cofnodi ymwelwyr wedi'i leoli wrth fynedfa'r ward.
Gwnaethom adolygu'r Polisi Lleihau'r Risg o Bwyntiau Clymu a Hongian ar gyfer y Gwasanaethau lechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a oedd yn caniatáu i dderbyn cleifion risg uchel i'r	Roedd nifer uchel o bwyntiau clymu ar y ward a oedd yn peri risg i ddiogelwch y cleifion pe bai unrhyw gleifion risg uchel yn cael eu derbyn i'r ward.	Gwnaethom fynegi ein pryderon i'r staff a gwnaethom argymell bod yn rhaid diwygio'r polisi pwyntiau clymu i roi gwaharddiad clir rhag derbyn cleifion a	Roedd yn gadarnhaol nodi bod geiriad y polisi wedi'i addasu i'r perwyl hwn cyn diwedd ein harolygiad.

ward, 'er mai prin yr oedd yr achosion hynny.'		oedd yn cyflwyno risg o glymu.	
Gwnaethom nodi bod y Polisi Lleihau'r Risg o Bwyntiau Clymu a Hongian yn amlinellu nad oedd bagiau plastig yn cael eu caniatáu ar y ward fel rheol, ond gwnaethom sylwi eu bod yn chwarae rôl allweddol yn ymgysylltiad therapiwtig un claf a oedd yn cadw nifer o fagiau plastig.	Roedd y bagiau plastig yn peri risg i ddiogelwch y cleifion ar y ward.	Gwnaethom dynnu sylw'r staff at y broblem ac argymhell diwygio'r polisi i gynnwys rhoi asesiadau risg ychwanegol ar waith pan fo bagiau plastig yn cael eu caniatáu ar y ward.	Diwygiwyd y polisi yn briodol yn ystod ein harolygiad.
Roedd oergell-rhewgell y gegin yn orlawn ac roedd angen ei glanhau gan fod rhywfaint o hylif wedi gollwng a sychu ar silffoedd y drws.	Roedd hyn yn cyflwyno mater atal a rheoli heintiau a risg i ddiogelwch staff a chleifion.	Gwnaethom dynnu sylw'r staff at y mater.	Roedd yn gadarnhaol nodi bod yr oergell/rhewgell wedi'i glanhau yn ystod ein harolygiad.
Dylai'r peiriant sugno sy'n gysylltiedig â'r cyfarpar dadebru gael ei wasanaethu'n flynyddol ond roedd yn dangos mai 2021 oedd dyddiad dirwyn i ben y prawf.	Roedd hyn yn cyflwyno risg bosibl i ddiogelwch cleifion.	Gwnaethom dynnu sylw'r staff at y mater hwn.	Daeth y staff o hyd i beiriant sugno arall a oedd yn dangos dyddiad dirwyn i ben ym mis Mehefin 2023 ar unwaith a'i gysylltu.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ysbyty Anableddau Dysgu

Dyddiad yr arolygiad: 22 a 23 Mawrth 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni chafodd unrhyw achosion lle mae angen sicrwydd ar unwaith eu nodi yn ystod yr arolygiad.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Anableddau Dysgu

Dyddiad yr arolygiad: 22 a 23 Mawrth 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r bwrdd iechyd wneud ymdrechion ychwanegol i drefnu i gael gwared ar y sgip er mwyn gallu cael gwared ar eitemau'r ardd.	Diogelu a Gwella Iechyd	Bydd sgip ychwanegol yn cael ei logi i gael gwared ar yr holl eitemau gardd i'w gwaredu.	Pennaeth Nyrsio	31/07/2023
Dylid codi arwyddion clir a hygyrch ar ddrysau mewnol y ward sy'n nodi pob ystafell ar gyfer ymwybyddiaeth staff, cleifion ac ymwelwyr.	Diogelu a Gwella Iechyd	Bydd yr arwyddion priodol ar gyfer y gwasanaeth yn cael eu hadolygu gan y fforwm defnyddwyr gwasanaeth a bydd y bwrdd iechyd yn rhoi argymhellion y grŵp ar waith.	Pennaeth Nyrsio	31/07/2023
Dylid tacluso a chynnal a chadw'r ystafell synhwyrdd at ddefnydd y cleifion.	Diogelu a Gwella Iechyd	Cafodd y cam gweithredu hwn ei gwblhau yn ystod yr arolygiad. Fodd bynnag, mae ystafell synhwyrdd amlbwrpas newydd	Pennaeth Nyrsio	Wedi'i gwblhau 23/03/2023

		bellach wedi'i hagor ac yn weithredol gyda phrotocol cynnal a chadw clir ar waith.		
Dylai'r bwrdd iechyd ystyried gosod paneli gweld ar ddrysau ystafelloedd gwely'r cleifion er mwyn gallu cynnal arsylwadau cleifion o'r tu allan.	Gofal ag urddas	Bydd y gwasanaeth yn adolygu hyn yn unol â pholisi arsylwadol therapiwtig y sefydliad. Bydd canfyddiadau'r adroddiad yn cael eu darparu gydag argymhelliad i'w ystyried mewn cyfarfod Diogelwch Cleifion ac Ansawdd a Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion is-adrannol.	Pennaeth Nyrsio	10/08/2023
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gan gleifion gwrywaidd a benywaidd doiledau a chyfleusterau golchi ar wahân er mwyn atal torri preifatrwydd ac urddas y cleifion o bosibl. At hynny, rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd ddarparu lleoedd penodol i rywiau ar wahân ar gyfer cleifion y mae modd eu defnyddio fel y bo angen.	Gofal ag urddas	Bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau bod toiledau a chyfleusterau golchi ar wahân ar gael gydag arwyddion clir i'w gweld. Bydd y cleifion yn cael eu cyfeirio ar sail anghenion cyfathrebu wrth dderbyn.	Pennaeth Nyrsio	31/07/2023

Rhaid penodi Therapydd Lleferydd ac laith sydd â chyfrifoldeb clinigol am y ward.	Cyfathrebu'n effeithiol	Gellir cael gafael ar y Therapydd Lleferydd ac laith sy'n gyfrifol am y ward drwy'r broses atgyfeirio. Yn ogystal, mae clinigau galw heibio wedi'u cyflwyno'n fisol.	Pennaeth Nyrsio	Wedi'i gwblhau 23/03/2023
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth berthnasol a chyfredol i gleifion yn cael ei harddangos ar y ward er mwyn sicrhau y caiff cleifion, teulu a gofalwyr gymorth i wneud penderfyniadau gwybodus am eu gofal.	Gwybodaeth i gleifion	Bydd hysbysfwrdd gyda sgrin diogel rhag difrod yn cael ei godi ar y ward er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth ei harddangos yn glir. Bydd pecyn gwybodaeth i deuluoedd a chleifion hefyd yn cael ei ddatblygu i sicrhau bod gan deuluoedd a chleifion wybodaeth gyfredol wrth iddynt gael eu derbyn.	Pennaeth Nyrsio	31/07/2023
Rhaid darparu gwybodaeth i gleifion mewn fformat hygyrch i gleifion ag anawsterau cyfathrebu neu nam gwybyddol.	Gwybodaeth i gleifion	Bydd yr holl wybodaeth i gleifion yn cael ei darparu ar sail asesiad o ddulliau cyfathrebu ac anghenion yr unigolyn.	Pennaeth Nyrsio	Wedi'i gwblhau 23/03/2023

<p>Dylai'r bwrdd iechyd adolygu dogfennaeth Aseiad Deddf Galluedd Meddyliol a Lles Pennaf i sicrhau ei fod yn darparu'r manylder a ddisgwylir gan y Ddeddf Galluedd Meddyliol a chyfraith achosion. Dylid ystyried dogfennaeth atodol neu amgen lle mae dogfennaeth y bwrdd iechyd yn cyfyngu ar allu'r staff i fodloni gofynion statudol a chyfraith achosion.</p>	<p>Hawliau pobl</p>	<p>Bydd y gwasanaeth yn adolygu'r ddogfennaeth yn unol â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a Phenderfyniadau Lles Pennaf er mwyn sicrhau y caiff lefel y manylder disgwylid ei chofnodi a'i bod yn gyson â chyfraith achosion. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno i Uwch Dîm Arwain Anableddau Dysgu</p> <p>Lle mae'r adolygiad yn nodi cyfyngiadau o ran y ddogfennaeth ychwanegol sy'n bodoli, bydd dogfennaeth amgen yn cael ei rhoi ar waith, gan roi hyfforddiant ychwanegol i'r tîm o staff.</p>	<p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>1/09/2023</p>
<p>Rhaid i uwch-reolwyr ystyried cyfyngiadau'r amgylchedd a barn glinigol y tîm amlddisgyblaethol wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â derbyn cleifion</p>	<p>Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>Mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol, bydd adolygiad llawn o'r Model Gweithredu Gwasanaeth Anableddau Dysgu yn cael ei gynnal. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad amgylcheddol llawn, galw ar hyn o bryd ac yn y</p>	<p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>30/04/2024</p>

		<p>dyfodol a chanllawiau arfer gorau.</p> <p>Bydd model gweithredu diwygiedig yn cael ei ddatblygu drwy ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ac mewn partneriaeth â nhw a bydd yn cael ei gyflwyno yng Ngrŵp Cyflawni Trawsnewid Gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd i'w roi ar waith.</p>		
Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i roi gwaharddiad ar dderbyn cleifion sy'n cyflwyno risg o glymu ar y ward.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Bydd pob un a dderbynnir yn cael ei ystyried yn unol ag asesiad risg amgylcheddol gwrth-glymau'r ysbyty.	Pennaeth Nyrsio	Wedi'i gwblhau 23/03/2023
Dylai'r bwrdd iechyd ddarparu system larwm effeithiol a phriodol ar y ward sy'n sicrhau bod modd i staff, cleifion ac ymwelwyr seinio'r larymau pan fo angen.	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Bydd y Gwasanaeth yn adolygu'r system larymau priodol i'w rhoi ar waith ar y ward yn seiliedig ar broffil y cleifion, angen clinigol a diogelwch y staff, ymwelwyr a chleifion.	Pennaeth Nyrsio	10/08/2023
Dylai cynlluniau gofal cleifion ac asesiadau risg unigol cleifion gael eu diweddarau er mwyn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am y	Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae cynlluniau gofal cleifion ac asesiadau risg unigol cleifion i gyd wedi'u diweddarau yn unol ag	Pennaeth Nyrsio	Wedi'i gwblhau 23/03/2023

ffordd y caiff unigolion eu cefnogi yn ardaloedd yr ystafell ymolchi a thoiledau er mwyn i gleifion a staff gael eu diogelu wrth roi gofal personol.		anghenion unigolion a risgiau diogelu a nodwyd i'r staff wrth roi gofal.		
Dylid atgyfnerthu cyfrifoldebau glanhau staff y ward yn ddyddiol er mwyn sicrhau bod y ward yn cael ei glanhau'n briodol ac yn effeithiol.	Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mae protocol glanhau sy'n nodi cyfrifoldebau ar waith ar gyfer staff y ward a'r gwasanaethau domestig.	Pennaeth Nyrsio	Wedi'i gwblhau 23/03/2023
Rhaid darparu oergell-rhwgell cegin gwbl weithredol i'r ward sy'n cynnig digon o le storio ac sy'n sicrhau diogelwch y cleifion.	Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mae oergell-rhwgell newydd wedi'i harchebu.	Pennaeth Nyrsio	Wedi'i gwblhau 23/03/2023
<i>Rhaid codi, uwchgyfeirio a mynd i'r afael yn briodol ag achosion pan na fydd tymereddau oergell y ward o fewn yr ystodau tymheredd derbyniol er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch y cleifion, y staff a'r ymwelwyr.</i>	Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mae'r holl staff wedi cael eu hatgoffa o broses bresennol yr holl faterion Atal a Rheoli Heintiau sy'n cael eu huwchgyfeirio drwy'r cyfarfod Diogelwch Cleifion ac Ansawdd Lleol a'r Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad is-adrannol fel rhan o adroddiad archwilio Atal a Rheoli Heintiau.	Pennaeth Nyrsio	Wedi'i gwblhau 23/03/2023

		<u>Mae rhewgell ddiwydiannol wedi'i harchebu a fydd yn rhoi sicrwydd o ran tymereddau.</u>		
Rhaid labelu bwyd cleifion unigol a chymunedol yn briodol. Rhaid archwilio eitemau bwyd a thafllu eitemau sydd wedi dirwyn i ben er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion. Dylai taflenni tasgau dyddiol y staff gael eu diweddarau er mwyn adlewyrchu eu rôl a'u cyfrifoldebau yn hyn o beth.	Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mae protocol gwirio dyddiol wedi'i ddatblygu ar y ward i gydymffurfio â safonau hylendid bwyd ac Atal a Rheoli Heintiau.	Pennaeth Nyrsio	Wedi'i gwblhau 23/03/2023
Dylid gosod sinc yn yr ystafell ddialysis er mwyn sicrhau bod trefniadau atal a rheoli heintiau digonol ar waith ar y ward.	Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Nid yw'r ystafell ddialysis bellach yn cael ei defnyddio.	Pennaeth Nyrsio	Wedi'i gwblhau 23/03/2023
Dylid darparu peiriant golchi ychwanegol ar gyfer y ward er mwyn atal rhag golchi dillad y cleifion a dillad gwely'r cleifion yn yr un peiriant.	Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Peiriant golchi wedi'i archebu	Pennaeth Nyrsio	Wedi'i gwblhau 23/03/2023
Dylid atgyweirio neu newid y sofffa a'r ffrâm sefyll yn lolfa bersonol un claf er mwyn atal a rheoli heintiau yn effeithiol.	Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Oherwydd bod difrod yn cael ei wneud i'r dodrefn hyn yn aml, bydd adolygiad yn cael ei gynnal gyda'r bwriad o newid y dodrefn presennol gyda chynnyrch mwy	Pennaeth Nyrsio	31/07/2023

		priodol i anghenion y gwasanaeth.		
Dylai cynlluniau gofal cleifion gael eu diweddarau i gynnwys pa mor aml y caiff eitemau cleifion, sy'n cael eu difrodi'n rheolaidd, eu harchwilio a'u hatgyweirio.	Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Mewn partneriaeth â'n hadran ystadau, bydd protocol diwygiedig ar gyfer monitro a chynnal eitemau'r cleifion yn cael eu rhoi ar waith ar y ward.	Pennaeth Nyrsio	31/07/2023
Dylai'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad o ansawdd a maint dognau'r bwyd a weinir i gleifion i sicrhau eu bod yn bodloni'r claf ac yn bodloni'r gofynion maethol.	Maeth a hydradu	Bydd y gwasanaeth yn parhau i ymgysylltu â phennaeth yr adran arlwyo i gynnal adolygiad ffurfiol o werth maethol, ansawdd a swm y bwyd a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd.	Pennaeth Nyrsio	31/09/2023
Dylai'r bwrdd iechyd ddarparu mewnbwn sesiynol gan ddietydd i'r ward a fydd yn galluogi asesiad a chynllunio gofal arbenigol rhagweithiol.	Maeth a hydradu	Mae system atgyfeirio i gael cymorth dietegydd ar gael trwy'r meddyg teulu.	Pennaeth Nyrsio	Wedi'i gwblhau 23/03/2023
Rhaid cofnodi cyfarwyddiadau arbennig mewn perthynas â meddyginiaeth cleifion yng nghofnodion y cleifion er mwyn i'r holl staff fod yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn.	Rheoli meddyginiaethau	Bydd archwiliad yn cael ei gynnal, mewn perthynas â chofnodion meddyginiaeth cleifion i sicrhau bod yr holl gyfarwyddiadau arbennig a gweithdrefnau ar waith.	Pennaeth Nyrsio	10/08/2023

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff archwiliadau fferyllol rheolaidd eu cynnal ar y ward.	Rheoli meddyginiaethau	Bydd y gwasanaeth yn parhau i gysylltu â'r adran fferyllol i sicrhau y caiff y cylch archwiliadau ei ailgyflwyno'n wythnosol yn unol â'r trefniadau cyn COVID-19.	Pennaeth Nyrsio	10/08/2023
Rhaid rhoi mesurau cadarn ar waith i sicrhau y caiff cyfarpar dadebru ei wasanaethu o fewn yr amserlenni gosod i sicrhau diogelwch y cleifion.	Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol	Mae ap archwilio My Kit wedi'i roi ar waith ym mhob rhan o'r safle i sicrhau bod y cyfarpar dadebru'n cael ei archwilio'n ddyddiol. Bydd methu â gwneud hyn yn rhybuddio'r uwch dîm ac yn cael ei nodi hefyd yn yr adroddiad atal a rheoli heintiau sy'n cael ei fonitro drwy'r cyfarfod PSQ lleol a chyfarfod y Weithrediaeth Ansawdd a Diogelwch is-adrannol.	Pennaeth Nyrsio	Wedi'i gwblhau 23/03/2023
Mae angen caffael batri sbâr i'r diffibriliwr er mwyn sicrhau bod cleifion yn ddiogel.	Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol	Nid yw polisi'r sefydliad yn cefnogi batri sbâr. Caiff yr uned ei phrofi'n ddyddiol fel rhan o ap My Kit, os bydd islaw 4, bydd yr ap yn cysylltu â'r tîm dadebru i newid y batri ar unwaith.	Pennaeth Nyrsio	Wedi'i gwblhau 23/03/2023

<p>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried pa mor addas yw cleifion o oedranau a gofynion gofal amrywiol i dderbyn gofal yn yr un amgylchedd clinigol, o gofio'r lle cyfyngedig sydd ar gael i'w gwahanu.</p>	<p>Gofal diogel a chlinigol effeithiol - Ymddygiadau sy'n herio</p>	<p>Mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol, bydd adolygiad llawn o'r Model Gweithredu Anabledau Dysgu yn cael ei gynnal. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad amgylcheddol llawn, galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol a chanllawiau arfer gorau.</p> <p>Bydd model gweithredu diwygiedig yn cael ei ddatblygu drwy ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ac mewn partneriaeth â nhw a bydd yn cael ei gyflwyno yng Ngrŵp Cyflawni Trawsnewid Gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd i'w roi ar waith.</p>	<p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>30/04/2024</p>
<p>Dylai'r bwrdd iechyd ddarparu mesurau amsugno sŵn ychwanegol yn ardal y lolfa er mwyn sicrhau bod y cleifion, y staff a'r ymwelwyr yn gysurus.</p>	<p>Gofal diogel a chlinigol effeithiol - Ymddygiadau sy'n herio</p>	<p>Mewn partneriaeth â'r adran ystadau, bydd adolygiad o fesurau amsugno sŵn ychwanegol yn cael eu cynnal gan ddarparu arfarniad o opsiynau i'r grŵp ystadau lleol a'r grŵp Cyfalaf ac Ystadau Is-adrannol i'w hystyried.</p>	<p>Pennaeth Nyrsio</p>	<p>1/09/2023</p>

Dylid ychwanegu cerdyn olrhain at rannau o ffeiliau cleifion pan fydd y cynnwys wedi'i symud o un ffeil i'r llall.	Cadw cofnodion	Bydd y cerdyn olrhain yn cael ei roi ar waith ar ffeiliau'r cleifion.	Pennaeth Nyrsio	30/06/2023
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu ei brosesau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth berthnasol â chleifion sy'n cael eu trosglwyddo i'r ysbyty i sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei chadw ar y ward, sy'n galluogi ar gyfer cyfathrebu effeithiol ac adolygiad gan y tîm amlddisgyblaethol.	Cadw cofnodion	Bydd y gwasanaeth yn adolygu'r broses bresennol ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth. Bydd yr adolygiad yn cynnig argymhelliad i'w ystyried mewn cyfarfod Diogelwch Cleifion ac Ansawdd a Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion is-adrannol.	Pennaeth Nyrsio	31/07/2023
Dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r system cofnod iechyd gyfredol gyda'r bwriad o roi system cofnod iechyd electronig ar waith yn y dyfodol.	Cadw cofnodion	Bydd y gwasanaeth Anableddau Dysgu yn parhau i ymgysylltu â'r bwrdd iechyd ehangach gan ei fod yn rhoi ei strategaeth TG a systemau electronig ar waith.	Pennaeth Nyrsio	30/04/2024
Dylid parhau i ymdrechu i wella cydymffurfiaeth â goruchwyllo nyrsys.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Mae cynllun adfer wedi'i roi ar waith ar y ward ar gyfer goruchwyllo'r holl staff Cofrestredig gyda'r bwriad o gyflawni cydymffurfiaeth o dros 85% erbyn mis Awst.	Pennaeth Nyrsio	10/08/2023

		Bydd y cynllun yn cael ei fonitro drwy gyfarfod Ansawdd a Chyflawniad Gweithredol lleol.		
Dylid darparu cyfleusterau storio ychwanegol i sicrhau bod digon o le i eiddo staff a digon o gyfleusterau newid i'r staff.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Bydd adolygiad amgylcheddol o'r safle'n cael ei gynnal a bydd arfarniad o opsiynau'n cael ei ddarparu i'w ystyried yn y cyfarfod ystadau lleol a'r cyfarfod cyfalaf ac ystadau is-adrannol. Bydd hyn yn cynnwys opsiynau ar y safle am gyfleusterau storio ychwanegol ar gyfer staff, gan gynnwys cyfleusterau newid ychwanegol.	Pennaeth Nyrsio	1/09/2023
Dylai'r bwrdd iechyd gynnal ymgynghoriadau pellach â'r staff er mwyn trafod ffyrdd o gynnwys staff y ward mewn penderfyniadau pwysig.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Bydd y gwasanaeth yn sicrhau bod yr holl staff yn cael y cyfle i fod yn rhan o'r rhaglen trawsnewid Anableddau Dysgu. Gyda phob penderfyniad yn dilyn protocol ymgysylltu ac ymgynghori sy'n cael ei gytuno arno. Mae presenoldeb uwch reolwyr ar wardiau'n parhau i fod yn	Pennaeth Nyrsio	Wedi'i gwblhau 23/03/2023

		uchel gyda'r Rheolwr Gweithredol Clinigol a'r Pennaeth Nyrsio'n bresennol unwaith yr wythnos o leiaf a'r Rheolwr Safle Clinigol yn bresennol bob dydd.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu unrhyw bolisiau lle mae eu dyddiadau adolygu wedi mynd heibio er mwyn cefnogi'r staff yn eu rolau.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Mae proses ddiwygiedig ar waith i adolygu a diweddarau pob Polisi is-adrannol.	Penaethiaid Llywodraethu	Wedi'i gwblhau 23/03/2023
Dylai'r bwrdd iechyd gynnal adolygiad o ofynion y tîm amlddisgyblaethol er mwyn sicrhau bod digon o staff cyflenwi ar gyfer therapi lleferydd ac iaith a'r fferyllfa, er mwyn darparu gofal priodol ac ymatebol i gleifion.	Y Gweithlu	Mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol, bydd adolygiad llawn o'r Model Gweithredu Gwasanaeth Anableddau Dysgu yn cael ei gynnal. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad amgylcheddol llawn, adolygiad o'r cymysgedd sgiliau, galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol a chanllawiau arfer gorau. Bydd model gweithredu diwygiedig yn cael ei ddatblygu drwy ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ac mewn partneriaeth â nhw a bydd yn cael ei gyflwyno	Pennaeth Nyrsio	30/04/2023

		yng Ngrŵp Cyflawni Trawsnewid Gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd i'w roi ar waith.		
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod aelodau o'r staff yn cael eu cefnogi i fynychu hyfforddiant gorfodol er mwyn gwneud yn siŵr bod aelodau o'r staff yn cael y sgiliau a'r wybodaeth briodol i'w helpu i gyflawni eu rolau.	Y Gweithlu	Mae'r ffigurau hyfforddiant gorfodol yn parhau i fod yn uchel ar hyd a lled y gwasanaeth ac maent yn aros yn gyson uwchlaw'r lefel gydymffurfiaeth o 93%.	Pennaeth Nyrsio	Wedi'i gwblhau 23/03/2023
Dylid adolygu'r system matrices hyfforddiant er mwyn sicrhau bod modd cael hyd i ffigurau cyfredol a chywir ynglŷn â chydymffurfiaeth â hyfforddiant er mwyn i lefelau hyfforddiant staff gael eu rheoli'n effeithiol ac er diogelwch y cleifion a'r staff.	Y Gweithlu	Bydd adolygiad o'r matrices hyfforddiant yn cael ei gynnal i sicrhau bod yr holl gydymffurfiaeth â hyfforddiant ar un system h.y. y system Cofnodion Staff Electronig.	Pennaeth Nyrsio	9/11/2023
Dylid adolygu'r system matrices hyfforddiant gyda'r nod o gofnodi cydymffurfiaeth pob aelod o'r staff â hyfforddiant ar un system er mwyn gallu llywodraethu a monitro'r sefyllfa yn hwylus.	Y Gweithlu	Bydd adolygiad o'r matrices hyfforddiant yn cael ei gynnal i sicrhau bod yr holl gydymffurfiaeth â hyfforddiant ar un system h.y. Y System Cofnodion Staff Electronig.	Pennaeth Nyrsio	9/11/2023

Dylai'r bwrdd iechyd adolygu ac ystyried unrhyw gyrsiau hyfforddiant ychwanegol a fyddai'n datblygu staff ac o fantais i'r cleifion ar y ward. '	Y Gweithlu	Bydd yr Uwch Dîm Arwain Anableddau Dysgu yn adolygu'r holl hyfforddiant ychwanegol sydd ar gael a fydd o fantais i'r defnyddwyr gwasanaeth. Bydd unrhyw hyfforddiant ychwanegol a nodwyd yn cael ei gyflwyno yn y grŵp hyfforddiant a datblygu is-adrannol i'w hystyried.	Pennaeth Nyrsio	9/11/2023
--	------------	--	-----------------	-----------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): William Haydn Williams

Teitl swydd: Pennaeth Gweithrediadau a Chyflenwi Gwasanaethau

Dyddiad: 31/05/2023